Adroddiad Cyfarfod 11:09:19
Meinir Gwilym

Cafwyd agoriad ardderchog i dymor newydd Merched y Wawr, Bethel, pan ddaeth Meinir Gwilym, y gantores a chyflwynwraig dalentog atom. Diddorol oedd clywed fod ei hen daid wedi bod yn brif arddwr yn Nhre-Ysgawen ar Ynys Môn a sut y cychwynnodd ei diddordeb hi mewn garddio. Mae hi bellach yn un o gyflwynwyr ar raglen mae llawer o'n haelodau yn mwynhau, sef 'Garddio a Mwy'. Gwibiodd yr amser heibio yn gwrando arni yn sgwrsio ac yn canu ei chaneuon adnabyddus.

Roedd Mair Read ein llywydd yn falch o gael llongyfarch sawl un yn ein cyfarfod cyntaf. Roedd amryw o blant y pentref wedi gwneud yn dda yn yr arholiadau ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a braf oedd gweld Bethan Marlow, cyn ddisgybl yn Ysgol Bethel, yn traddodi'r feirniadaeth mor rhwydd a naturiol ar y llwyfan cyn datgelu enillydd y fedal ddrama. Llongyfarchodd Ysgol Bethel hefyd am adroddiad Estyn campus.

Bu nifer o aelodau cangen MYW Bethel a MYW Llanrug yn cymryd rhan yn y gwasanaeth fore Sul yn ystod y Penwythnos Preswyl ym Mangor ac fe godwyd dros £700 i'r Ambiwlans Awyr ar y diwedd. Derbyniwyd diolch am eu gwaith gan Meirwen Lloyd ein Llywydd Cenedlaethol.

Cofiwch am y Prynhawn Coffi ar Fedi 27 yn y Neuadd Goffa, ac mae Clwb Bro Bethel wedi ailgychwyn gyda chroeso i bawb.

Enillwyd y raffl gan Nan Rowlands, Gwenan Roberts, Mary Evans ac Eirlys Williams. Ar ôl tynnu'r raffl cafodd bawb fwynhau'r lluniaeth ysgafn, amrywiol oedd wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor.

Yn ein cyfarfod nesaf nos Fercher Hydref 9fed disgwylir swyddog o'r Safonau Masnach atom i siarad am 'Scam a Spam!' Croeso cynnes i aelodau newydd.